



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

**Meinir Ebbsworth**  
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion**  
**Corporate Lead Officer : Schools**

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,  
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE  
[www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)

Dyddiad Date	5 Ionawr, 2021
Gofynnwch am Please ask for	Mrs.Meinir Ebbsworth
Llinell uniongyrchol Direct line	01545 570881
Fy nghyf My ref	ME/SAD
Ebost Email	<a href="mailto:Clic@ceredigion.gov.uk">Clic@ceredigion.gov.uk</a>

Annwyl Riant/Gofalwr,

Ysgrifennaf i'ch diweddarau am sefyllfa sydd yn newid yn gyflym o ran ysgolion. Fel y byddwch yn ymwybodol, daeth gwybodaeth dros y Nadolig am yr amrywiolyn newydd i Coronaferiws, ac mae'r amrywiolyn hynny yn golygu bod llediad yr haint yn llawer mwy cyflym. O ganlyniad i dderbyn gwybodaeth feddygol bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gau i ddysgu wyneb-yn-wyneb tan **o leiaf y 18fed o Ionawr, 2021**. Bydd y penderfyniad ar gyfer dyddiad ail agor yn cael ei adolygu'n gyson gan Lywodraeth Cymru.

Bydd ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn darparu dysgu o bell i'ch plentyn o ddydd Mercher, 6ed Ionawr, 2021 hyd nes yr ail agorir ysgolion ar gyfer dysgu wyneb-i-wyneb, a bydd eich hysgol yn cysylltu gyda chi'n uniongyrchol i egluro'r trefniadau hynny.

Mae'r cyngor yn glir iawn; mae'r amrywiolyn Coronaferiws yn lledu'n gyflym ac mae angen i bawb aros yn eu cartrefi cymaint ag sy'n bosib, a pheidio â chymysgu ag eraill os nad oes rhaid.

Bydd ysgolion yn darparu gofal ar gyfer disgyblion bregus a disgyblion gweithwyr allweddol, os nad oes unrhyw opsiynau gofal plant arall ar gael gan deuluoedd. Er mwyn trefnu unrhyw ofal plant argyfwng fel hyn bydd rhaid cofrestru ar lein, ac fe ddarperir dolen ichi ddydd Mercher, 6ed Ionawr, 2021 ar gyfer gwneud cais ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau dydd Llun, 11eg Ionawr, 2021. O'r cyfnod hwnnw ymlaen byddwn yn diffinio gweithwyr allweddol rheng flaen fel un rhiant/gofalwr yn gweithio yn y rheng flaen ym maes iechyd, gofal, yr heddlu neu'r gwasanaethau brys yn unig. Dylai rhieni/gofalwyr fod wedi ystyried pob opsiwn posib cyn gwneud cais ar gyfer y ddarpariaeth hyn. Bydd y ddarpariaeth ar gyfer plant oed Cynradd a disgyblion blynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion Uwchradd. Bydd angen i'r disgyblion hyn ddod â thocyn bwyd i'r ysgol.

Os ydy eich plentyn yn hawlio prydau ysgol am ddim yna bydd y taliad/taleb yn parhau yn ystod y cyfnod hwn.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

**Prif Weithredwr / Chief Executive :**  
**Cyfarwyddwr Corfforaethol / Corporate Director :**

**Eifion Evans**  
**Barry Rees**

Diolch ichi am eich cyd-weithrediad unwaith yn rhagor. Mae'n hanfodol ein bod yn cyd-weithio fel cymunedau yng Ngheredigion i atal llediad Coronafeirws er mwyn lleihau'r effaith andwyol y mae'n ei gael ar ein Gwasanaeth Iechyd, ein hardal, a'n teuluoedd.

Yn gywir,

*MEbbsworth.*

Meinir Ebbsworth  
Prif Swyddog Addysg  
Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion a Diwylliant